



Sefydliad SAFE

Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr: 1117864

Teitl y Swydd: Cydlynnydd Gwirfoddolwyr

Yn atebol i: Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Diben y Swydd:

Cydlynu a datblygu rhaglen wirfoddoli Sefydliad SAFE, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ym meysydd datblygu rhyngwladol a dinasysddiaeth fyd-eang yn y DU ac yn rhyngwladol.

Bydd y Cydlynnydd Gwirfoddolwyr yn recriwtio, hyfforddi ac yn cefnogi gwirfoddolwyr mewn amrywiaeth o rolau ar draws y sefydliad, gan gynnwys rhaglen addysg dinasysddiaeth fyd-eang Cyfoedion, a chyfleoedd gwirfoddoli rhyngwladol sy'n codi.

Yn ogystal, bydd y Cydlynnydd Gwirfoddolwyr yn trafod â sefydliadau allanol i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli Sefydliad SAFE drwy ystod eang o ddulliau cyfathrebu.

Rolau a chyfrifoldebau:

Recriwtio gwirfoddolwyr, hyfforddi a chefnogi

- Datblygu a chynnal cysylltiadau â grwpiau'r gymuned leol a sefydliadau a busnesau eraill er mwyn recriwtio gwirfoddolwyr.
- Paru gwirfoddolwyr â chyfleoedd addas yn rhaglen wirfoddoli Sefydliad SAFE.
- Cydlynu, datblygu a chynnig hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr
- Datblygu a chynnal cysylltiadau â darparwyr hyfforddiant allanol er mwyn datblygu gwirfoddolwyr.
- Monitro ac adolygu lleoliadau gwirfoddoli er mwyn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn derbyn digon o gefnogaeth ac yn cyrraedd eu targedau.

Rheoli gwirfoddolwyr

- Cynnal polisiâu a dulliau gweithredu arfer da er mwyn rheoli gwirfoddolwyr a sicrhau bod staff y Sefydliad SAFE yn derbyn newyddion diweddaraf ynghylch datblygiadau yn y sector gwirfoddol.
- Gweithio gyda staff er mwyn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli yn Sefydliad SAFE.

Gweithio mewn Partneriaeth

- Datblygu a chynnal perthynas weithio dda a llwybrau cyfeirio gyda sefydliadau perthnasol sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli ar gyfer gwirfoddolwyr.

Gwybodaeth, marchnata a hyrwyddo

- Gweithio ar y cyd â'r tîm cyfathrebu er mwyn dylunio ystod o ddeunydd marchnata mewn cyfryngau hygyrch er mwyn hyrwyddo projectau Sefydliad SAFE.
- Lledaenu deunydd marchnata i ystod eang o gynulleidfaoedd
- Mynd i ddigwyddiadau, megis ffeiriau gwirfoddoli a digwyddiadau cymunedol i hyrwyddo rhaglen wirfoddoli Sefydliad SAFE.
- Trefnu digwyddiadau recriwtio, megis gweithdai a darlithoedd, er mwyn hyrwyddo rhaglen wirfoddoli Sefydliad SAFE.
- Gweithio o fewn y tîm cyfathrebu er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli Sefydliad SAFE drwy'r cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, bwletinâu a'r wefan.
- Defnyddio rhwydweithiau lleol a rhanbarthol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli Sefydliad SAFE.

Monitro a Gwerthuso

- Sicrhau cyrraedd y gofynion ariannu a cofnodi, monitro a gwerthuso effaith y gwaith yn unol â'r canllaw.
- Cyflwyno adroddiadau yn ôl yr angen
- Sicrhau diweddarau a chynnal cronfa ddata'r gwirfoddolwyr yn gywir ac effeithiol a sicrhau cofnodi'r data yn unol â pholisi Diogelu Data Sefydliad SAFE.
- Helpu cael adnoddau ychwanegol drwy geisiadau am arian a dulliau eraill (e.e. ymgyrchoedd noddi a digwyddiadau codi arian) ar gyfer y rhaglen wirfoddoli.

Arall

- Gwneud unrhyw dasgau neu ddyletswyddau y mae eu hangen mewn perthynas â'r rhaglen
- Gweithio gyda gweithwyr eraill i sicrhau bod gofal addas i wirfoddolwyr ar bob adeg.

Cyflog:

Yn dibynnu ar brofiad, telir deiliad y swydd yn unol â graddfa tâl y cwmni, yn yr achos hwn:
£20,000 pro rata y flwyddyn

Oriau gwaith:

22.5 awr yr wythnos

Lleoliad:

Prif swyddfa Sefydliad SAFE: 4 Siambr Doc (Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown), 4 Siambr Doc, Caerdydd, CF10 5AG. Fodd bynnag, bydd y swydd yn gofyn am hyblygrwydd, yn cynnwys gweithio'r tu allan i'r swyddfa yn ardal de Cymru yn ogystal â theithio o amgylch Cymru o bryd i'w gilydd.

Contract:

Cytundeb 12 mis y gellir ei estyn yn dibynnu ar arian.
Swydd rhan amser drwy Rannu Swyddi

Cyfnod Prawf:

3 mis

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:

5pm 19 Chwefror 2016

Ymgeisiwch drwy anfon e-bost i: Hannah@thesafefoundation.co.uk neu

drwy'r post: Hannah Fitt, The SAFE Foundation, 4 Dock Chambers, Stryd Bute, Caerdydd, CF10 5AG

Bydd y cyfweiliadau'n digwydd ddydd Mercher 24 Chwefror 2016 – dydd Gwener 26 Chwefror 2016.

Gofynion Manyleb Person

(H = Hanfodol, D = Dymunol. FfG = Asesir drwy'r ffurflen gais. Cyf = Asesir yn y cyfweiliad. Cyfl = Asesir yn y cyflwyniad.)

	E	D	FfG	Cyf	Cyfl
Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig cryf yn cynnwys profiad o siarad cyhoeddus a/neu gallu rhoi cyflwyniadau ac arwain trafodaethau grŵp.	X		X	X	X
Ymrwymiad i'r Trydydd Sector a gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau â'r un nod.	X		X		
O leiaf flwyddyn o weithio yn y sector gwirfoddol a gweithgareddau yn cynnwys gallu wedi ei brofi o weithio gyda gwirfoddolwyr, unigolion, grwpiau ac asiantaethau eraill, yn cynnwys y sectorau cyhoeddus a'r preifat a'r trydydd sector, er mwyn cyrraedd deilliannau penodedig.	X		X	X	X
Profiad o gydlynu gwirfoddolwyr	X		X	X	
Ymrwymiad i a dealltwriaeth weithredol o gydraddoldeb ac amrywiaeth gan gynnwys dealltwriaeth o anghenion a phroblemau cymunedau sy'n datblygu yn y DU ac yn rhyngwladol.	X		X	X	
Gwybodaeth a dealltwriaeth o Dargedau Datblygu'r Mileniwm/targedau datblygu cynaliadwy a'r gwaith a wneir yn rhyngwladol er mwyn cyrraedd y targedau hyn.		X	X		
Gallu wedi ei brofi i ddefnyddio amrywiaeth o offer T.G a phhecynnau meddalwedd.		X	X	X	
Llawer o ysgogiad personol a pharodrwydd i ddysgu sgiliau newydd ac chymryd heriau a chymryd rhan mewn hyfforddiant berthnasol.	X		X	X	
Gallu cynllunio a threfnu llwyth gwaith a chydlynu adnoddau eraill er mwyn bodloni terfynau amser.	X		X	X	
Sgiliau gweithio mewn tîm ardderchog.	X		X	X	
Gwybodaeth weithredol a phrofiad o ystod eang o gyfryngau cyfathrebu gan gynnwys ysgrifennu adroddiadau, cynhyrchu cylchlythyrau a.y.b.	X		X	X	
Dal tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu fod yn barod am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	X		X		
Profiad uniongyrchol o broiectau datblygu cymunedol yn y DU ac yn rhyngwladol.		X	X	X	X
Addysg uwch e.e. gradd, HNC, tystysgrif, diploma neu astudiaethau'r Brifysgol Agored, neu brofiad arall nodedig y gellir ei ddangos yn y sector gwirfoddol.	X		X		
Trwydded yrru ddilys lawn		X	X		
Cerbyd eich hun		X	X		
Dealltwriaeth o gymdeithas a daearyddiaeth Cymru.		X	X		
Y gallu i siarad Cymraeg.		X	X		

Arwyddwch a nodwch y dyddiad ar y fanyleb person hon er mwyn nodi eich bod yn deall y rôl.

Llofnod:

Enw:

Dyddiad:

Llofnod Rheolwr Llinell:

Dyddiad: